BWRDD PARTNERIAETH IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES GWYNEDD

Cofnodion cyfarfod 24ydd Ionawr 2 – 4pm yn Ystafell Glyder Fawr, Penrallt, Caernarfon

Presennol: Craig Barton, Sandra Cairney, Clare Jones, Sioned Larsen, Barry Latham, Dafydd Lewis, Dr Lyndon Miles (Cadeirydd), Cynghorydd Godfrey Northam, Dafydd Owen, Glanville Owen Llinos Owen, Alwyn Rowlands, Janet Roberts.

	EITEM A DRAFODWYD AR Y RHAGLEN	Gweithred gan
1	**Croeso ac ymddiheuriadau** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan, Pat Billingham, Gwen Carrington, Nia Elis-Williams, Darren Griffiths, Grace Lewis Parry, Harry Thomas. Croesawyd Sandra Cairney (SC) i'r grwp fel Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Locwm BILI Ynys Mon a BILI Gwynedd. Bydd SC yn cymryd lle Jo Charles ar y Bwrdd. Diolchwyd i Jo Charles am ei chyfraniad.	
2	**Cofnodion cyfarfod 27/09/2007** **Cywirdeb** – Pwynt 2.1. Nododd Sioned Larsen (SL) mai 'Hwylusydd' ac nid 'Swyddog' Plant a Phobl oed y swydd dan sylw ac mai arian 'Cymorth' wedi'i weinyddu gan Gyngor Gwynedd oedd yn noddi'r apwyntiad. **Materion yn codi** – 'Materion Strategol pwynt 4.1 – trafod Ysbyty Blaenau', nododd y Cadeirydd mai Edwina Hart Gweinidog Iechyd wedi gofyn am adolygiad annibynnol – cadarnhaodd Clare Jones (CJ) hyn yn gywir. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.	
3	**Adroddiad y Cydlynydd – Janet Roberts** Amlinellodd Janet Roberts (JR) y camau diweddaraf yn natblygiad y Strategaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles newydd. Nododd fod y cyfnod ymgynghori (12 wythnos) wedi dod i ben 07.01.08. Ychwaengodd nifer o ffeithiau am yr ymgynghoriad gan gynnwys: • 44 o holiaduron wedi'u dychwelyd gan amrywiaeth o fudiadau, cynghorau ac unigolion • Amrywiaeth o gyfarfodydd ymgynghori wedi eu cynnal • 2 adroddiad wedi eu llunio sef Adroddiad BEN ar farn aelodau lleiafrifoedd ethnig Adroddiad Adfocatiaeth Gogledd Cymru ar farn defnyddwyr	
4	**Materion Strategol** **i) Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008/11 – y fersiwn ddiweddaraf** Eglurodd JR bod y gwaith o ddiwygio'r Strategaeth ddrafft yn mynd rhagddo gan fod yr amsrlen i gymeradwyo a chyflwyno'r fersiwn newydd mor dynn.. Diolchodd i Llinos Owen, Nia Elis-Williams a Clare Jones am eu cefnogaeth wrth baratoi'r fersiwn derfynol. Ychwanegodd (CJ), bod y Strategaeth gyfredol yn wahanol iawn i'r un gyntaf o ran arddull a fformat gyda geirfa ddealladwy i bawb. Bydd	

	dogfen ychwanegol yn cynnwys cynlluniau gwaith a thargedau yn seiliedig ar flaenoriaethu'r Strategaeth newydd yn cael ei baratoi am y 3 mlynedd nesaf. Trafodwyd Fersiwn 5 mewn manylder a chynigiwyd y sylwadau canlynol: • Croesawodd Dafydd Lewis (DPL) y newidiadau a llongyfarch pawb ar eu gwaith. Cytunodd ei bod yn ddogfen llawer haws i'w darllen. • Nododd LM yr angen i anelu at dargedau pendant os oes targed wedi ei osod. • Pwynt 1.2 – angen nodi esiamplau ymarferol a llwyddiannus megis gwaith ataliol, ysgolion, a Theleofal. • Pwynt 1.3 - Cynnwys y 3 blaenoriaeth ar ddechrau pob pennod i adlewyrchu cysondeb • Pwynt 1.4 – NPHS i gynnig data • Pwynt 2.5 – Sandra Cairney (SC) i wirio manylion cancr • Pwynt 2.6 – Gwasanaeth Iechyd Meddwl – blaenoriaeth ai peidio? CJ i drafod hyn ymhellach gyda MD. • Pwynt 3.6 - Cyng Godfrey Northam yn cwestiynu pam nad oedd cancr yn un o'r NS's. JR a CJ i wirio hyn. • Pwynt 4.1 – SC yn awyddus i ychwanegu blaenoriaeth 'Hybu Iechyd'' • Angen Pennod ychwanegol ar ddiwedd y ddogfen i adlewyrchu sefyllfa ariannol - nodi nad oes arian 'newydd' ar gael i gyflawni'r newidiadau yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Dywedodd Dafydd Owen (DO) bod angen sicrhau gwell gwasanaeth o'r adnoddau sydd gennym, a bod rhaid cryfhau'r Bartneriaeth i ymateb i hyn. Penderfynwyd cynnal cyfarfod byr i'r prif swyddogion i fabwysiadu'r ddogfen yn ffurfiol gan na fydd cyfarfod arall o'r Bartneriaeth cyn diwedd Mawrth.Bydd JR a CJ i drefnu. **ii) Canlyniadau'r Ymgynghori – Janet Roberts** Yr ymateb i'r Strategaeth ddrafft yn ffafriol ar y cyfan. Nifer wedi awgrymu bod 3 blynedd yn gyfnod rhy fyr i weld gwahaniaeth sylweddol yn statws iechyd trigolion Gwynedd. Nodwyd yr angen hefyd i fod yn realistig wrth osod targedau a datblygu cynllun gweithredu. Cytundeb ar y weledigaeth, y meysydd blaenoriaeth a'r gwasanaethau a'r grwpiau a flaenoriaethwyd ymhellach.	
5	**Llywodraethiad** **Adolygu Cylch Gorchwyl y Grŵp Swyddogion Arweiniol a'r Grwpiau Cynllunio ar y Cyd.** Eglurodd CJ fel Cadeirydd y Grŵp Swyddogion Arweiniol mai pwrpas y Cylch Gorchwyl newydd oedd edrych o'r newydd ar beth mae'r grŵp angen ei wneud yn y blynyddoedd nesaf i weithredu'r Strategaeth. Mae'r Cylch Gorchwyl diwygiedig yn cynnig ffocws newydd, aelodaeth ddiwygiedig ac allbynnau mwy pendant. Awgrymodd LM y dylid cynnwys deilliannau mwy positif. Awgrymwyd y dylid cynnwys defnyddwyr wrth lunio grwpiau tasg i ymdrin â materion penodol. Fe fydd y Grŵp newydd yn cael ei ailfrandio fel y Grŵp Cynllunio a Datblygu y Bartneriaeth. Trafodwyd hefyd Cylch Gorchwyl y Grwpiau Gwella Gwasanaeth newydd sef yr hen grwpiau Cynllunio ar y Cyd. Y bwriad yma yw resymoli nifer y grwpiau gan leihau'r rhain i 3. Awgrymwyd fod grwpiau llai yn haws eu rheoli gyda llai o gyfarfodydd a	

	llai o ofyn ar amser i nifer sy'n gorfod mynd i sawl un. I'w weithredu o 24.1.08. DPL yn cynnig y dylid enwi cyswllt o Bolisi Gofal fel aelod i bob un o'r grŵp yma. Penderfynwyd mabwysiadu'r Cylchoedd Gorchwyl newydd.	
6	**Cyd-Weithio** **i. Strategaeth Comisiynu ar y Cyd Gwynedd Gwasanaethau Anableddau Dysgu 2007/10** Cyflwynwyd y Strategaeth gan DO ac eglurodd fod y ddogfen yn adnabod prif faterion y maes anableddau dysgu. Eglurodd hefyd bod hel y wybodaeth at ei gilydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn a bod y data newydd megis y twf sylweddol mewn niferoedd erbyn 2020 yn her sylweddol i wasanaethau iechyd. Cydnabyddir bod y Strategaeth yn ymateb i'r galw ac felly'n gryn her i gyllidebau gwasanaeth. O ganlyniad, rhaid ail-ddylunio gwasanaethau presennol i gwrdd ag anghenion nawr ac yn y dyfodol. Trafodwyd y Strategaeth ac fe'i mabwysiadwyd. **ii) Cynllun Gwasanaethau yn y Gymuned** Arweiniodd Clare Jones ar y drafodaeth gan egluro bod y cynnydd yn araf. Un cam positif yw bod y Bwrdd Gwasanaeth Lleol newydd wedi mabwysiadu y Cynllun uchod fel un o ddau blaenoriaeth yn unig ar gyfer 2008/9. Mae arian wedi cael ei glustnodi i benodi swyddog i arwain ar y cynllun hwn. **iii) Cynllun Gwella Gwasanaeth i reoli Cyflyrau Cronig** Rhannwyd yr ohebiaeth uchod o'r Cynulliad er gwybodaeth. Mae'r llythyr yn amlinellu'r camau i wella gwasanaeth yn dilyn cyhoeddi Framwaith ym Mawrth 2007. Mae gofyn i'r Bwrdd lechyd mewn partneriaeth ddarblygu Cynllun Gweithredu Lleol erbyn 18 Ebrill 2008. Mae peth cefnogaeth ariannol ar gael i weithredu unrhyw newid mewn gwasanaeth. Bwriedir sefydlu 2 lleoliad arddangos hefyd – un yng Nghaerfyrddin a'r llall yng Ngogledd Cymru i wirio'r model a'r fframwaith. Hysbysodd CJ y Bartneriaeth fod Gwynedd wedi gwneud cais ar y cyd gyda Wrecsam i fod yn lleoliad yn y Gogledd. CJ i adrodd ar y datblygiad ar 9 Ebrill a chyflwyno'r Cynllun Gweithredu Lleol. Ychwanegodd Sioned Larsen bod Cynhadledd ar Gyflyrau Cronig yn cael ei chynnal 11.03.08. **iv) Dyfodol y Grant Cydweithio** DO yn egluro ar waethaf y rhagolygon fod oes y Grant Cydweithio wedi ei ymestyn am flwyddyn arall. Mae'r Grant yn ariannu nifer o brosiectau a bod angen trafod y rhain yn fanwl. Penderfynwyd sefydlu grŵp tasg i wneud hyn a'r aelodaeth i gynnwys CJ, DO, JR, Ann Lloyd Jones a Rob Lewis. (cyfarfod wedi ei drefnu 19.02.08). Eglurodd DO nad oedd unrhyw ganllawiau penodol wedi eu derbyn yn yr ohebiaeth ond ei fod wedi ymateb i'r llythyr. Cytunodd y Bartneriaeth y dylai'r blaenoriaethau gwariant eistedd law yn llaw gyda blaenoriaethau'r strategaeth newyddac y dylid sefydlu cytundebau ffurfiol (adran 33). **v) Cofnodion Cyfarfod y Grwp Swyddogion Arweiniol – 26.11.07** **Eitem 8 – NSF Pobl Hŷn –** mynegodd JR ei phryderon am ddatblygiad a chynnydd NSF Pobl Hŷn hyd yma. Amlinellodd lwyddiant NSF Plant a	

	Phobl Ifanc ac awgrymodd y dylid sefydlu strwythur tebyg i bobl hŷn. Un pryder yw'r diffyg capasiti o'i gymharu â Phlant a Phobl Ifanc. JR a Delia Roberts o'r Bwrdd Iechyd i drafod hyn ymhellach.	
7	**Unrhyw Fater Arall** i) Dosbarthwyd copi o Adroddiad Darren Griffiths ar y gwaith o flaenoriaethu materion ar gyfer y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Tynnodd JR sylw'r grŵp at y blaenoriaethau (3.1)ac at brif gasgliadau sefydlu'r matrics. Awgrymwyd y dylid tynnu sylw at 3 peth sef: • Holi pam bod Bwydo o'r Fron yn flaenoriaethau mor isel? • Mynegi syndod bod tlodi yn Grŵp 2 blaenoriaeth • Yn yr Adran Ysgolion, rhaid sicrhau bod plant yn cael eu hybu i gymryd rhan mewn chwaraeon fel rhan o'u ffordd o fyw. ii) Dosbarthwyd copïau o lythyr '*Integration of Community Equipment and development of Telecare Services'* o'r Cynulliad. Eglurodd DO gefndir y llythyr - Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn grant cyfalaf i sefydlu gwasanaeth offer cymunedol integredig. Y bwriad ydy ymestyn a gwella cyfleusterau Bryn y Neuadd a sefydlu lleoliadau arddangos mwy lleol. Er mwyn cyflawni amodau grant, bydd angen cwblhau Cytundeb Adran 33 erbyn diwedd mis Mawrth rhwng Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd. Cyfarfod wedi ei drefnu gyda chynrychiolwyr o'r ddau sefydliad wedi eu gwahodd.	
8	**Cyfarfod Nesaf** **Dyddiad: 09.04.2008** **Amser: 2:00 – 4:30pm** **Lleoliad: Bwrdd Iechyd Lleol, Caernarfon**	